**09.11.23**
**7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; RJ; IW; GW;LLMH;EO;AR; JAJ; TAJ<br>**Ymddiheuriadau:** EY/RY/DP/Cyng. Llio A<br>**Yn mynychu:** SWR |
| | **Cyflwyniad Fferm Solar Alaw Môn**<br>Croesawyd Dafydd Gwilym o Grŵp Pegasus a Neil Foxall o gwmni Enso Energy atom i gyflwyno diweddariad ar gynllun Fferm Solar Alaw Môn.<br>Fe gyfeiriwyd at yr ymgynghoriad olaf yn y broses cyn cyflwyno cais terfynol. Nodwyd mai'r dyddiad cau yw 13 Rhagfyr 2023.<br>Eglurodd Dafydd Gwilym y newidiadau yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol. Bu cwtogiad yn ôl troed y safle o gwmpas preswylfeydd ag ardaloedd o bwys amgylcheddol. Nododd mai 268 hectar yw'r safle bellach, cwtogiad o 60 hectar Adroddodd nad oedd ymateb gan drigolion cyfagos i'r safle hyd yma. Yn dilyn trafodaeth nodwyd y canlynol:<br>• Graddfa'r datblygiad yn eithaf mawr - Carmel - Capel Coch - Carreglefn<br>• Pryder am faint mwy o ddatblygiadau sydd yn yr arfaeth<br>• Bwriedir rhentu'r tir gan y perchnogion am 40 mlynedd<br>• Nodwyd bydd nifer o swyddi ddaw yn sgil y datblygiad yn lleihau yn sylweddol yn dilyn cwblhau'r adeiladu a sefydlu<br>• Mynegwyd pryder am effaith amgylcheddol. Fe roddwyd sicrwydd bod cwmni ecolegol yn gwneud arolwg i Gwmni Pegasus gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn yn rhan o'r trafodaethau.<br>• Holwyd os ydi'r llwybr trawsgludo i'r Wylfa wedi ei benderfynu. Cyfeiriodd Dafydd Gwilym at y dogfennau ymgynghori sy'n manylu'r |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | trawsgludo.<br>• Nodwyd bydd trafnidiaeth ychwanegol ar lonydd yr ardal am gyfnod o tua blwyddyn tra bo'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Mynegwyd pryder am brysurdeb ffyrdd cefn gwald sydd eisoes yn dioddef o draffig trwm Dywedodd Dafydd Gwilym y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud i osgoi amseroedd prysur e.e. trafnidiaeth bysiau Ysgol.<br>• Trafodwyd yr Is-orsaf ar y safle a holwyd am ei maint. Gofynnwyd i'r cyflwynwyr anfon rhagor o fanylion at y Clerc er mwyn hwyluso ymateb i'r ymgynghoriad.<br>• Nododd DG na fydd unrhyw allyriadau dros y 40 mlynedd o oes y prosiect.<br>• Nodwyd bydd Cwmni Enso yn ceisio hyd gorau eu gallu i gyflogi'n lleol ac yn hapus i dderbyn manylion cwmnïau perthnasol. Bydd cynnal a chadw'r safle yng ngofal Enso Energy.<br>• Cyfeiriwyd at y '*Community Legacy Fund'* ac y byddai £25K y flwyddyn o gyllideb yn dod i ardal Llannerchymedd. Holwyd os fyddai CC Llan a diddordeb gweinyddu'r gyllideb. Nododd DG ei fod eisoes wedi trafod gyda gweinyddwyr grant a Chwaen Goch a'u bod wedi dangos diddordeb. Nododd hefyd bydd angen llunio cytundeb yn dilyn trafodaethau pellach gyda rhai sydd â diddordeb<br>• Ail-nodwyd bod y penderfyniad terfynol am yr holl brosiectau solar yn ddwylo Llywodraeth Cymru ac nid yr Awdurdod Lleol<br>Diolchwyd i DG a NF am fynychu'r a gadawsant y cyfarfod<br>Nododd LLMH ei bod yn ceisio cyd-lynu cyfarfod gyda swyddogion CSYM i drafod holl brosiectau Ffermydd Haul arfaethedig ar yr Ynys. Cytunwyd hefyd y byddai'n dda cael cyfarfod ar y cyd gyda Chynghorau Cymuned eraill dalgylch y prosiect. Cytunwyd i drafod ymhellach yng nghyfarfod 4 Rhagfyr er mwyn llunio ymateb cyn 13 Rhagfyr 2023 sef dyddiad cau'r ymgynghoriad olaf. . |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd DAW ddiddordeb mewn Eitem 5 Cyllid gan ei fod yn gyflogedig gan Gwmni Eiddo ein hasiant - Rhys Jones<br>Datganodd JOJ ddiddordeb yn Eitem 6 Cais Cynllunio Bryn Hyfryd gan ei fod yn berchennog tir gerllaw. |
| **3** | **Cofnodion 05.10.23** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 05.10.23 fel rhai cywir (TAJ/DAW) yn dilyn cofnodi bod TAJ yn bresennol. Cadarnhawyd bod yr arian i noddi twll yn y gystadleuaeth gollf yn dod o gyllideb Ysgol Haearn gan fod elw'r gystadleuaeth yn mynd at y Clwb Peldroed iau.<br><br>**Materion yn Codi**<br>**Sul y Cofio –** nodwyd bod y trefniadau mewn llaw. Trafodwyd lythyr gan CSYM yn nodi bod hawl i gau'r ffordd am y cyfnod. Nododd y Clerc ei bod wedi cysylltu a'r Heddlu i nodi hyn ond heb gael ymateb hyd heddiw. Cytunwyd i holi RPO Williams am gymorth a bu i LLMH ei ebostio o'r cyfarfod. |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Daeth cadarnhad yn syth bydd yn cyflenwi arwyddion rhybudd bod y ffordd yn cau a chymorth dau o'i weithwyr i gau'r lon yn ddiogel am y cyfnod. Diolchwyd iddo am ei gymorth**.**<br><br>**Coeden Dolig –** nododd GW bod y goeden nadolig wedi ei harchebu gan y cyflenwr arferol. Nododd hefyd ei fod yn fodlon i drefnu casgliad a gosod.<br><br>**Grwp LlanNi -** adroddodd y Clerc bod angen creu Tim Rheoli ar y cyd rhwng Grwp LlanNi a CC Llan. Cytunwyd i'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd yn rhinwedd eu swyddi ac fe wirfoddolodd DAW yn trydydd enw. Clerc i anfon yr enwau canlynol ymlaen at swyddog Dyfodol Gwledig sy'n cyd-lynnu'r cais Loteri fawr. JOJ/RJ/ a DAW<br><br>**Byrddau Snwcer –** nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn unrhyw ddiddordeb mewn pryniant. Adroddodd hefyd bod Corff Llwyodraethu'r Ysgol wedi gwneud cais i'r Aelod Lleol sydd ar y Corff i holi swyddogion CSYM am ddiweddariad ar addasu'r stafell i wneud dosbarth. NId oes diweddariad i law hyd heddiw.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 05.10.23 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• Effaith negyddol ceisiadau cynllunio ar yr Iaith Gymraeg - mynegodd AR bryder am effaith ceisiadau cynllunio ar ddyfodol yr Iaith Gymraeg gan gyfeirio at y datblygiad ym Mrynteg fel enghraifft. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i barhau i nodi unrhyw bryder am faterion yn ymwneud a'r iaith Gymraeg o fewn ymatebion i geisiadau unigol.<br><br>• Creu Cwmni Cymunedol - nododd LLMH ei bod wedi cynnal trafodaeth gyda swyddogion CSYM yn dilyn holi am angen statudol i gael EPC ar Unedau. Argymhellwyd iddi, gan fod nifer o adnoddau gan CC Llan, y byddai yn fuddiol dechrau trafodaeth am lunio Cwmni Cymunedol. Cytunwyd yn unfrydol i LLMH ddechrau'r drafodaeth gyda Menter Môn ac adrodd yn ôl i CC Llan.<br><br>• Adborth Is Bwyllgor Safleoedd - ni fu cyfarfod |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Hydref** – **£**<br>XPose Media – arwydd Llannerchymedd newydd 354.00<br>HMRC – Cyflog Clerc 225.40<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>Rhys Jones Asiant – gwaith tenantiaeth y Caffi TAJ/AR 580.00<br>Gareth Parry – paentio 3 ystafell yn y Stesion 400.00<br>BJ Jones – clirio cowt y Stesion 320.00 |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | **Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 14360.76<br>Cyfrif Cadw: £ 8477.47<br><br>**Cais Grwp LlanNi am grant Loteri Fawr**<br>Cadarn – gwaith pensaer 2016.00<br>Cadarn – gwaith pensaer 2856.00<br>Ffi Cynllunio - CSYM 230.00<br>Cyfan o'r uchod wedi ei ad-dalu eisoes |
| 7 | **Materion Cynllunio**<br><br>**FPL/2022/328 Bryn Hafod, Llannerchymedd** - cynigwyd i ail-anfon y sylwadau blaenorol gan DAW ac fel eiliwyd gan EO - cytunwyd yn unfrydol.<br><br>**FPL/2023/234 Pandy –** cais ôl-weithredol i godi shed. Gwrthod ar sail nad oedd y drefn wedi ei dilyn a olyga na chafodd CC Llan gyfle blaenorol i roi barn.<br><br>**FPL/2023/318 Bryn Hyfryd** - codi adeilad amaethyddol ar dir ger Bryn Hyfryd. Cynigiodd TAJ i gymeradwyo os yw'n cydymffurfio a gofynion Priffyrdd a ddim yn amharu ar fynediad at y llwybr cyhoeddus gerllaw. Eiliwyd gan AR<br><br>**Siop 2 Maes Athen** - cymeradwyo |
| 8. | **Adroddiad Cynghorwyr Sir -**<br>Cafwyd adroddiad llafar gan LLMH yn absenoldeb Cyng. LLA<br><br>• Sefyllfa Gyllidol CSYM - £10m o doriad oherwydd chwyddiant a llai o arian canolog. Gwaith yn mynd rhagddo i chwilio am arbedion ond yn waith anodd. Chwilio am golli gwaith gwirfoddol ac eto ceisio sicrhau gweithlu safonol, hyn yn bwysau ar bob adran. .<br>• Ar fin arwyddo cytundeb efo Stena i greu porthladd rhyd yng Nghaergybi. Arian ar gael trwy gyllid 'levelling-up' i gefnogi prosiectau yng Nghaergybi hefyd<br>• Nodwyd bod stad adeiladol ysgolion Ynys Môn yn creu pryder.<br>• Polisi 20 m.y.a. - adroddodd bod nifer o gwynion i law. Dywedodd bydd trafod pellach o bosib a'i bod yn allweddol i'r Cynghorau Tref a Chymuned fod yn rhan o'r trafodaethau hynny.<br><br>Gyda thristwch nododd LLMH bod ŵyr y Cyng. Jackie Lewis yn wael a'i bod i ffwrdd o'i gwaith o ganlyniad.<br>Gresynwyd clywed ac fe anfonwyd cofion cynhesaf y Cyngor Cymdeithas at JL a'r teulu drwy law LLMH. |
| 9 | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel - EPC** - Clerc wedi gofyn i Rhys Jones weithredu hyn.<br><br>**Safle'r Stesion** |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | Paentio, chwynu a thwtio ardal Stesion wedi ei drefnu ac ar fin gael ei gwblhau.  Cafwyd 2 bris i baentio ac fe ddyfarnwyd trwy gytundeb y Cadeirydd yn yr Is Bwyllgor Safleoedd i dderbyn yr isaf, sef £400.  Un pris i law am chwynu a thwtio sef £320 – cytunwyd i dalu.<br><br>**Lawnt Fowlio –** cytunwyd i gyfarfod ag aelodau'r clwb am 6pm 23.11.23 – Clerc i weithredu.<br><br>**Clwb Peldroed –** dim i law<br><br>**Cae Gofeb –** cofnodiwyd y taliadau isod o gyllod Cae Gofeb - £100 i Richard Owen am ofalu am y gofeb – mae wedi tynnu eiddew ac am ail blannu fel bo'r flwyddyn yn mynd yn ei blaen.  £124.94 am rithoedd Sul y Cofio.  Nodwyd hefyd bydd elw cystadleuaeth Golff Llan flwyddyn nesaf yn mynd i gyllided Cae Gofeb.  Adroddodd JAJ bod tuag £2K yn y gronfa<br><br>**Mynwentydd** – dim i law<br><br>Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau gyda Caffi'r Bae ym Menllech ar gyfer ein Swper Nadolig ac adrodd yn ôl trwy ebost. |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 10pm* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383